



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Rhaglen waith

Ebrill 2012 - Medi 2013

**Llais ac eiriolwr annibynnol
dros bobl hŷn**

Cynnwys

1.	Rhagarweiniad	2
2.	Cefndir	4
3.	Cymorth uniongyrchol i bobl hŷn	8
4.	Uchafbwyntiau 2011-12	9
5.	Ein rhaglen waith ar gyfer 2012-13.....	19
6.	Eich cyfle i ddweud eich dweud am ein blaenoriaethau i'r dyfodol	20
7.	Sut yr ydym yn cyflawni ein busnes	21
8.	Cyfeiriadau	22

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael copi o'r ddogfen hon mewn Braille, mewn print bras neu ar fformat sain, cysylltwch â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Gallwch gysylltu â ni drwy anfon e-bost i gofyn@olderpeoplewales.com neu drwy ffonio 08442 640670.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn y Gymraeg a'r Saesneg – ewch i www.olderpeoplewales.com

Cysylltu â ni

Ysgrifennwch aton ni:

Comisiwn Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Ffôn: 08442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Trydar: [@comisiwnphcymru](https://www.instagram.com/comisiwnphcymru)
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Os oes angen cymorth arnoch â phroblem benodol sydd gennych chi neu rywun yr ydych yn gofalu amdano/amdani, ffoniwch ein tîm Ymholiadau a Chymorth ar 08442 640670.

1. Rhagarweiniad

Dylid clodfori cenedlaethau hŷn am y cyfraniad enfawr y maent yn ei wneud. Nhw yw asgwrn cefn ein teuluoedd, ein cymunedau a'n gwlad. Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad ardderchog – nid yn unig fel gofalwyr, gwirfoddolwyr a neiniau a theidiau, ond i'r economi ehangach hefyd. Bellach, mae pobl hŷn yn cyfrannu dros £1 biliwn y flwyddyn at yr economi yng Nghymru, bron £3 miliwn y dydd¹, ac yn ystod yr 20 mlynedd nesaf byddant yn cyfrannu bron £27 biliwn.² Maent yn cyfrannu gwerth £755 miliwn y flwyddyn mewn gofal plant a gwirfoddoli yn unig.³ Drwy ein magu, ein dysgu a gofalu amdanom, mae pobl hŷn yn rhoi llawer iawn i lawer o bobl. Y rhain yw ein teuluoedd, ein ffrindiau a'r bobl rydym yn eu caru.

Yn rhy aml, rydym yn gweld a chlywed am stereoteipiau a negeseuon negyddol am bobl hŷn a thyfu'n hŷn. Mae'n gwbl anghywir bod pobl hŷn yn cael eu portreadu fel baich i bobl eraill a chymdeithas, a'u bod yn gorfod teimlo felly. Mae pobl hŷn yn dioddef gwahaniaethu ar sail oed yn rhy aml. Mae brwydro yn erbyn y delweddau negyddol hyn a gwahaniaethu ar sail oed yn ddwy o'n blaenoriaethau parhaus ni fel Comisiwn.

Rydym eisoes wedi gwneud llawer yng Nghymru i gefnogi pobl hŷn, drwy ddarparu cymorth uniongyrchol mewn cannoedd o achosion drwy ein Tîm Ymholiadau a Chymorth. Rydym hefyd wedi hyrwyddo buddiannau pobl hŷn ar draws ystod o feysydd polisi gan graffu ar ansawdd a darpariaeth y gwasanaethau, a chanolbwyntio ar leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, ni all neb ohonom yn y gwasanaeth cyhoeddus neu sy'n gofalu am bobl hŷn orffwys ar ein rhwyfau. Mae gormod yn byw mewn tlodi, yn dioddef afiechyd, yn teimlo eu bod yn cael eu hallgau, bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn, ddim yn cael y wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau pwysig, yn dioddef cam-drin, neu'n methu â chael rhywfaint o help llaw pan maent yn gofyn amdano. Mae angen i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ganolbwyntio ar y materion hyn. Byddaf yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, yn cynnwys cyrff statudol, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol i yrru newid cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn.

“

Rydym yn cefnogi ac yn siarad ar ran pobl hŷn.⁴

”

“

Rydym yn gweithio i sicrhau bod Cymru yn lle da i heneiddio, nid i rai pobl yn unig, ond i bawb.⁵

”

Mae pobl hŷn, eu teuluoedd, gofalwyr ac eraill yn cysylltu â'r Comisiwn bob dydd i sôn am faterion a phryderon sy'n effeithio arnynt. Mae'n amlwg nad oes gan lawer o bobl hŷn neb i wrando arnynt, nad oes ganddynt lais cryf ac, o ganlyniad, nad oes ganddynt lawer o reolaeth dros eu bywydau. Mae'n hollbwysig bod pawb ym maes gwasanaethau cyhoeddus yn gwrando ar leisiau pobl hŷn ac yn sicrhau y cânt eu cynnwys yn llawn mewn datblygu a chynllunio gwasanaethau sy'n gwella eu bywydau. Rhaid i'r ymgysylltu fod yn ystyrllon ac y ceir atebolrwydd cryf yn ôl gan y rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Rhaid i bobl hŷn gael llais, dewis a rheolaeth effeithiol.

Mae angen i ni ystyried hefyd sut rydym yn rhoi gofal a chymorth, nid yn unig i'r rheini sy'n agored i niwed nawr, ond i'r rheini a all fod yn agored i niwed yn y blynyddoedd i ddod. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn mabwysiadu dulliau yng Nghymru sy'n gyfuniad o ddarparu cymorth ar y pryd a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Wrth i bobl heneiddio, rhaid eu galluogi i wneud y penderfyniadau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn heneiddio'n dda, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae angen i ni roi gwell cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt reoli'n effeithiol yr heriau sy'n gysylltiedig â heneiddio – rydym yn galw hyn yn "Heneiddio'n Dda". Fel gyda chymaint o bethau mewn bywyd, gall mwy o bwyslais ar atal ac ychydig o gynllunio ymlaen llaw wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Dyma raglen waith y Comisiwn ar gyfer y deunaw mis o fis Ebrill 2012 i fis Medi 2013. Mae'n amlinellu'r hyn y byddwn yn ei wneud yn y cyfnod hwn i gefnogi pobl hŷn ledled Cymru. Byddwn yn cyhoeddi adolygiad o'r cynnydd ar ein gwefan bob chwe mis. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn parhau am flynyddoedd i'r dyfodol fel rhan o'n gwaith parhaus ac yn cael ei gynnwys yn y cynllun strategol pedair blynedd sydd gennym ar y gweill. Caiff hwnnw ei gyhoeddi yn hydref 2012 i ymgynghori arno. Fodd bynnag, mae ein rhaglen waith yn hyblyg ac mae hynny'n ein galluogi i ymateb i faterion pwysig a all godi.



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2. Cefndir

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac eiriolwr annibynnol i bobl hŷn yng Nghymru; mae'n eu cefnogi ac yn siarad ar eu rhan. Mae'r Comisiynydd yn annibynnol ar lywodraeth ac mae'n arwain Comisiwn Pobl Hŷn Cymru.

Mae gwaith y Comisiwn yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl hŷn yn dweud ei fod yn bwysig iddynt. Mae ymgysylltu parhaus ac uniongyrchol â phobl hŷn a phobl sy'n eu cynrychioli'n sicrhau bod gwaith y Comisiwn yn adlewyrchu'r materion sy'n bwysig ac sy'n effeithio ar fywydau pobl 60 oed neu hŷn yng Nghymru.

Yn ogystal ag ymgysylltu helaeth â phobl hŷn eu hunain, mae'r Comisiwn hefyd yn cydweithio ag amrywiaeth eang o grwpiau, sefydliadau ac unigolion ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector/sector gwirfoddol, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a lleol, i sicrhau newidiadau cadarnhaol ac ystyrlon i bobl hŷn ledled Cymru. Rydym hefyd yn comisiynu ymchwil penodol sy'n rhoi llais uniongyrchol i bobl hŷn fel bod eu profiadau'n ganolog i'n gwaith.

Caiff swyddogaethau'r Comisiwn eu pennu yn y ddeddfwriaeth a sefydlodd y Comisiwn a'u hadlewyrchu yn ein cynllun strategol tair blynedd presennol, sef:

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Bydd y Comisiwn yn ymgymryd â'i waith drwy:

- Sicrhau bod llunwyr polisïau a darparwyr gwasanaethau ledled Cymru'n deall y materion sy'n bwysig i bobl hŷn, a bod eu gwaith yn adlewyrchu hyn.
- Dod â sefydliadau a rhanddeiliaid at ei gilydd sydd â'r dylanwad i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i greu canlyniadau gwell i bobl hŷn.

Mae
712,000
o bobl yng
Nghymru
yn 60 oed
neu hŷn.⁶
Rhagwelir y
bydd hyn yn
cynyddu 55%
erbyn 2035.⁷

£1biliwn
Cyfraniad
economaidd
net pobl dros
65 oed at yr
economi yng
Nghymru yn
2010. Mae
hynny bron £2.9⁸
miliwn y dydd.

- Cydnabod yr hyn sy'n gweithio a hybu arfer gorau, ond hefyd adolygu, craffu ac amlinellu disgwyliadau a safonau mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau yn ôl yr angen.

Ymgysylltu â phobl hŷn

Eleni, rydym yn cyfarfod ac yn clywed gan mwy nag erioed o bobl hŷn, a'r rheini sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi, mewn 'Sioe Deithiol Ymgysylltu' ledled Cymru.

Byddwn yn gwranddo ar safbwyntiau pobl hŷn mewn nifer o ffyrdd:

- Drwy ymweld â dros 100 o grwpiau lleol sy'n cynrychioli amrywiaeth o bobl hŷn nad ydym wedi cyfarfod â nhw o'r blaen.
- Drwy gynnal digwyddiadau 'cyfarfod â'r Comisiwn' mewn lleoliadau cymunedol lleol bob mis.
- Drwy gynnal diwrnodau gwybodaeth bob tri mis ar y cyd â phartneriaid sy'n cefnogi pobl hŷn.
- Drwy weithio mewn partneriaeth i gynnal digwyddiadau penodol â ffocws ar faterion unigrwydd ac arwahanu.

Amcanion ein gwahanol ddigwyddiadau ymgysylltu yw:

- Codi ymwybyddiaeth o waith y Comisiwn a sicrhau bod pobl hŷn yn gwybod sut y gallwn gefnogi pobl hŷn a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau drwy waith ein Tîm Ymholiadau a Chymorth a drwy ein rhaglenni gwaith.
- Parhau i ganfod a deall y materion sy'n bwysig i bobl hŷn.
- Ein galluogi i ymgynghori'n uniongyrchol â phobl hŷn am newidiadau allweddol sy'n digwydd, er enghraifft mewn perthynas â thalu am ofal cymdeithasol, neu wrth ddatblygu ein rhaglen waith ein hunain.

Byddwn yn darparu adborth rheolaidd i'r grwpiau rydym yn cyfarfod â nhw gan ddangos iddynt sut mae eu sylwadau wedi gyrru ein gwaith. Byddwn hefyd yn cyhoeddi manylion yr ymweliadau ymgysylltu ar ein gwefan bob mis.

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau eraill, yn enwedig y rhwydwaith o 50+ o gydgyssylltwyr yng Nghymru, mudiadau gwirfoddol a mudiadau'r trydydd sector. Bydd hyn yn gwella ein cyrhaeddiad i bobl hŷn ledled

Cymru a sicrhau ein bod hefyd yn cael clywed gan y rheini sy'n cefnogi pobl hŷn am y materion sy'n bwysig iddyn nhw.

Byddwn yn cynyddu ein gwaith drwy amrywiaeth o gyfryngau i godi ymwybyddiaeth o sut y gallwn helpu pobl hŷn yn uniongyrchol, sut y gall pobl hŷn gysylltu â ni, a sut y gallant gynnwys eu hunain yn ein gwaith. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu helaeth â phapurau bro a radio lleol.

Byddwn yn ailwampio ein gwefan ac yn diweddarau ein llenyddiaeth, gan gynnwys ein cyhoeddiadau a'n taflenni.

Byddwn hefyd yn gweithredu i sicrhau bod pobl hŷn yn chwarae rhan fwy gweithgar yn ein gwaith nag erioed o'r blaen. Bydd hyn yn cynnwys:

- Recriwtio rhwydwaith o gefnogwyr ledled Cymru i'n cynorthwyo i fynd i'r afael â'n rhaglen waith.
- Datblygu cronfa o astudiaethau achos a ffotograffau fel y gallwn gynnwys wynebau pobl go iawn o Gymru yn ein llenyddiaeth a'n deunyddiau.
- Mynd ati i geisio safbwyntiau pobl hŷn am ymgynghoriadau allweddol i sicrhau y gallwn, lle bynnag y bo'n bosibl, roi llais uniongyrchol i bobl hŷn am faterion allweddol a fydd yn effeithio arnynt.

Ewch i'n [gwefan](#) i gael rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau ymgysylltu ledled Cymru. Os hoffech chi ein gwahodd i ymweld â'ch grŵp neu fudiad fel rhan o'n Sioe Deithiol Ymgysylltu, mae croeso i chi [gysylltu â ni](#) drwy gyfrwng y manylion cyswllt ar dudalen 1.

77

mlynedd

yw disgwyliad oes dynion yng Nghymru. Ond yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gall disgwyliad oes dynion fod hyd at 9.2 mlynedd yn llai.⁹

81.4

mlynedd

yw disgwyliad oes menywod yng Nghymru. Ond yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gall disgwyliad oes menywod fod hyd at 7.1 mlynedd yn llai.¹⁰

3. Cymorth uniongyrchol i bobl hŷn

Mae'r Comisiwn yn darparu cymorth uniongyrchol i bobl hŷn dros 60 oed drwy ein Tîm Ymholiadau a Chymorth. Maent yn cynorthwyo pobl hŷn a'r rheini sy'n gofalu amdanynt drwy ddarparu gwybodaeth, cymorth ac eiriolaeth.

Eleni, byddwn yn cynorthwyo pobl hŷn drwy wneud y canlynol:

- Rhoi pobl hŷn mewn cysylltiad â'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i'w cynorthwyo i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- Darparu gwybodaeth am wasanaethau yn eu hardal leol.
- Rhannu gwybodaeth a fydd yn eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan lawn ac effeithiol mewn ymgynghoriadau am faterion sy'n effeithio arnynt.
- Ymyrryd yn uniongyrchol os ydynt wedi profi anawsterau â darparwr gwasanaethau cyhoeddus neu sefydliad sy'n darparu gwasanaethau ar ran corff cyhoeddus.
- Eu cynorthwyo i gwyno'n ffurfiol ac yna monitro sut yr ymdrinnir â'u cwyn.

Mae ein Tîm Ymholiadau a Chymorth yn atgyfeirio i asiantaethau eraill, er mwyn atal dyblygu gwasanaethau yn ogystal â rhoi cymorth uniongyrchol ar faterion penodol.

Mae'r ymholiadau a gawn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i bobl hŷn ac yn ein helpu i sicrhau bod ein gwaith yn gwbl seiliedig ar safbwyntiau a phrofiadau pobl hŷn.

Byddwn weithiau yn clywed am fater sy'n golygu bod gofyn i ni warchod neu ddiogelu person hŷn ar unwaith. Dan yr amgylchiadau hynny, ein prif flaenoriaeth fydd diogelwch yr unigolyn a byddwn yn cymryd camau i sicrhau hynny.

Fel rhan o'n hymrwymiad i wneud gwahaniaeth i bobl hŷn yng Nghymru, os yw ymholiad yn mynd i effeithio'n ehangach gan effeithio o bosib ar nifer fwy o bobl hŷn yng Nghymru, yna gallai hynny fod yn sail i gynnal ymchwiliad pellach a mwy ffurfiol.

4. Uchafbwyntiau 2011-12

Ym mis Medi 2012, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2011-12. Bydd hwn yn rhoi manylion am y gwaith rydym wedi'i wneud yn y flwyddyn ddiwethaf. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Cefnogi dros 700 o ymholiadau gan bobl hŷn. Llwyddasom i roi cymorth mewn llawer o achosion, gan helpu i ddatrys nifer o anghydfodau cymhleth yn ogystal â darparu gwybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth.
- Gweithredu ar yr argymhellion a wnaethom yn dilyn ein hadolygiad o urddas a pharch mewn ysbytai yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, ceir mwy o ymweliadau gwirio urddas dirybudd yn ysbytai Cymru yn ogystal â mwy o fetronau ar wardiau. Mae pobl yng Nghymru wedi dod yn fwy ymwybodol o'r angen i ddangos urddas a pharch tuag at gleifion hŷn, ac mae'r GIG wedi gwneud hyn yn un o'u prif flaenoriaethau 'Haen Un'.
- Cynnal ymchwil i brofiadau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal mewn perthynas â dewis a rheolaeth. Daethom â'u barn ynghyd ag ymchwil cyfredol ym maes eiriolaeth i ddatblygu argymhellion sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn dan yr amgylchiadau hyn. Clywsom yn uniongyrchol gan bobl hŷn drwy gyfarfod â nhw mewn cartrefi gofal. Clywsom hefyd gan staff gofal a pherthnasau. Byddwn yn cyhoeddi argymhellion i greu newid cynaliadwy yn y ffordd y caiff eiriolaeth ei ddirnad a'i ddeall, ac yn gwella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ledled Cymru.
- Mae gwahaniaethu ar sail oed yn parhau i fod yn broblem fawr a wynebwr gan bobl hŷn. Rydym wedi casglu tystiolaeth am brofiadau a chanfyddiadau pobl hŷn o wahaniaethu ar sail oed, ac yn ystod 2012 a 2013 byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i roi llais i bobl hŷn i herio agweddau tuag at heneiddio.
- Sicrhau sylw helaeth yn y cyfryngau i faterion sy'n peri pryder i bobl hŷn drwy gyfweiliadau, erthyglau yn y wasg, a rhaglenni radio a theledu. Neilltuodd ITV Cymru raglen i'r materion a gododd o'n hadolygiad o urddas a pharch mewn ysbytai.

“

Gwnaethom gefnogi dros 700 o ymholiadau gan bobl hŷn gan helpu i ddatrys nifer o anghydfodau cymhleth yn ogystal â darparu gwybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth.

”

“

Gwnaethom gyfarfod a herio Gweinidogion y DU ynghylch pryderon pobl hŷn yng Nghymru am y bwriad i ddiwygio pensiynau.

”

- Ymuno â chyrff sy'n bartneriaid i wrthwynebu cynlluniau i ddod â mentrau trafnidiaeth cymunedol i ben. Mae'r rhain yn werthfawr iawn i bobl hŷn. Maent yn eu galluogi i fyw bywyd llawn gan fynd i siopau, defnyddio gwasanaethau a chyfranogi yn eu cymunedau. Gyda'n gilydd, llwyddasom i ohirio penderfyniad Llywodraeth Cymru i dorri cyllid a sicrhau ymrwymiad i gynnal gwerthusiad priodol o fanteision y cynlluniau.
- Cyfarfod â Gweinidogion y DU a'u herio ynghylch pryderon pobl hŷn Cymru am ddiwygio pensiynau, credydau pensiwn, a budd-daliadau lles. Rydym hefyd wedi mynegi pryderon am ariannu gofal cymdeithasol a sut y byddai cynlluniau i ymateb i adroddiad Comisiwn Dilnot yn effeithio ar Gymru.
- Arwain trafodaeth yn Fforwm Ymgynghorol Llywodraeth y DU ar Heneiddio a ganfu mai anghydraddoldeb ym mhensiynau menywod yw'r prif fater y dylai'r Gweinidog Pensiynau roi sylw iddo. O ganlyniad i hyn, gostyngodd y llywodraeth eu cynnydd dwy flynedd yn oedran pensiwn y wladwriaeth i ddeunaw mis; roedd hyn o gymorth i 250,000 o fenywod hŷn ledled y DU.

Caiff ein hadroddiad blynyddol am y flwyddyn Ebrill 2011 i Ebrill 2012 ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Brif Weinidog Cymru ar 26 Medi 2012 a chaiff ei drafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 25 Hydref 2012. Bydd hefyd ar gael ar ein [gwefan](#).

5. Ein rhaglen waith ar gyfer 2012-13

Fel yr amlinellir yn ein cynllun strategol presennol 2010-13, cyfrifoldebau allweddol y Comisiwn yw:

- Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Hybu'r cyfleoedd a ddarperir i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Parhau i adolygu digonoldeb ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae'r rhaglen waith hon yn rhoi trosolwg lefel uchel o brif feysydd gwaith y Comisiwn. Ein blaenoriaethau eleni yw:

- Gwahaniaethu ar sail oed
- Tlodi a phryderon ariannol
- Talu am ofal cymdeithasol a mynediad ato
- Gofalwyr hŷn di-dâl
- Dementia
- Trefniadau eiriolaeth mewn cartrefi gofal
- Gwybodaeth a chyingor
- Diogelu ac amddiffyn oedolion
- Urddas a pharch mewn ysbytai
- Heneiddio'n dda
- Datblygu gwell gwasanaethau cyhoeddus

Nid yw'r uchod wedi'u trefnu yn ôl blaenoriaeth a rhoddir mwy o fanylion amdanynt dros y dudalen.

Fel rhan o'n strategaeth pedair blynedd (Ebrill 2013 i Fawrth 2017), byddwn yn ymgysylltu ag ystod eang o unigolion a grwpiau ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cwrdd â phobl hŷn, sefydliadau pobl hŷn, a'r rheini sy'n gofalu am bobl hŷn ac yn eu cefnogi. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran 6: Eich cyfle i ddweud eich dweud am ein blaenoriaethau i'r dyfodol (tudalen 19) ac ar ein [gwefan](#).

Gwahaniaethu ar sail Oed

Mae gwahaniaethu ar sail oed yn parhau i fod yn broblem fawr i bobl hŷn ac mae'n un o'r prif faterion a godant. Mae gwahaniaethu ar sail oed yn gallu arwain at ddiffyg hunan-barch, arwahanrwydd cymdeithasol ac, mewn rhai achosion, methu â derbyn gwasanaethau, triniaeth neu ofal. Ychydig iawn o hawliau penodol sydd gan bobl hŷn yn y gyfraith, ac o ganlyniad gall fod yn anodd herio ansawdd gwael a methiannau mewn cyflenwi gwasanaethau.

Rydym am barhau i ymgyrchu dros ddatblygu hawliau cadarn y gall pobl hŷn a'r rheini sy'n eu cynrychioli eu defnyddio.



Rydym yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, bod ganddynt ddewis a rheolaeth, ac nad ydynt yn teimlo'n ynysig nac yn dioddef gwahaniaethu, gan ddarparu'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.¹¹



Byddwn yn parhau i geisio gwell hawliau i bobl hŷn yng Nghymru. Byddwn yn eu helpu i herio gwahaniaethu pan fyddant yn wynebu anhegwch.¹²



Byddwn yn:

Cyhoeddi adroddiad sy'n rhoi llais i bobl hŷn drwy roi sylw i'w profiadau o wahaniaethu ar sail oed yng Nghymru.

Lansio ymgyrch, gyda phartneriaid, i herio camsyniadau am heneiddio a chynhyrchu gwell gwerthfawrogiad o werth pobl hŷn i Gymru.

Codi ymwybyddiaeth am y gwaharddiad diweddar ar Wahaniaethu ar sail Oed ym maes Nwyddau a Gwasanaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau i alluogi pobl hŷn i fod yn fwy ymwybodol o'u hawliau a sut i sicrhau eu bod yn cael eu diwallu.

Adolygu cynlluniau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a Byrddau Iechyd o safbwynt pobl hŷn i asesu i ba raddau y caiff buddiannau pobl hŷn eu cynrychioli ac i asesu cydymffurfiad â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Ceisio tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru eu bod yn cydymffurfio â 'Chynllun Gweithredu Rhyngwladol Madrid ar Heneiddio' y Cenhedloedd Unedig, sy'n ceisio sicrhau bod polisiau cyhoeddus yn ymgorffori materion cysylltiedig ag oed.

Ceisio perswadio Llywodraeth Cymru i gymryd camau i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn flaenllaw yn y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd, a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cyd-fynd ag Egwyddorion Pobl Hŷn y Cenhedloedd Unedig.

Annog cefnogaeth drawsbleidiol o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn i Gymru.

Tlodi a Phryderon Ariannol

Erbyn hyn mae tlodi a phryderon ariannol ehangach ymysg y prif faterion a godir gan bobl hŷn. Mae dros 110,000¹³ o bobl hŷn yng Nghymru'n byw mewn tlodi cronig. Caiff hyn effaith sylweddol ar iechyd a lles pobl hŷn, eu teuluoedd a'n cymunedau ehangach. Ac eto, mae pobl hŷn yn hawlio rhy ychydig o lawer o'u hawliau ariannol.

Pensiwn y wladwriaeth yw unig ffynhonnell incwm dros hanner y bobl hŷn yng Nghymru ac mae chwarter yr ymholiadau a gaiff Cyngor ar Bopeth Cymru gan bobl dros 60 oed yn ymwneud â dyled.

Mae costau byw uwch, yn enwedig y codiadau mewn prisiau ynni, wedi cael effaith fawr ar bobl hŷn yng Nghymru ac mae cyfraddau llog isel iawn hefyd wedi ei gwneud yn anoddach i'r rheini gyda chynilion a phensiynau preifat i gynllunio'n ariannol.

Byddwn yn:

Cyflwyno sylwadau cryf i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ar ran pobl hŷn ynglŷn â'r materion ariannol y maent yn eu codi gyda ni ac am y newidiadau i hawliau ariannol sy'n cael effaith negyddol ar bobl hŷn.

Monitro effaith gostyngiadau ariannol neu gwtogi gwasanaethau ar bobl hŷn a chymryd camau priodol i sicrhau na cheir effaith anghymesur arnynt.

Ceisio perswadio Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gymryd camau i fynd i'r afael â thlodi ymysg pobl hŷn a sicrhau bod cymaint â phosibl o bobl yn derbyn arian y mae ganddynt hawl i'w gael.

Talu am Ofal Cymdeithasol a Mynediad Ato

Mae pobl hŷn yn aml yn codi materion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol. Er bod llawer o arfer da'n bodoli ledled Cymru mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol, mae pobl hŷn yn wynebu heriau enfawr sy'n dal i dyfu o ran cael mynediad at ofal cymdeithasol, a cheir amrywiadau annerbyniol yn ansawdd y gofal a ddarperir.

Mae talu am ofal yn fater pwysig i bobl hŷn; mae llawer ohonynt yn ei chael yn anodd fforddio'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ac yn wynebu anghysonderau o ran sut y caiff meini prawf cymhwysedd a rheolau codi tâl eu defnyddio.

Byddwn yn:

Cyhoeddi adroddiad am brofiadau pobl hŷn o wasanaethau gofal cartref. Byddwn yn gwneud mwy o waith i archwilio rhai o'r materion a godir, yn enwedig materion sy'n gysylltiedig â threfniadau comisiynu a chontractau, ond hefyd mewn perthynas â safonau sy'n sail i ansawdd gofal.

Gweithio i hybu'r angen i roi mwy o gydnabyddiaeth i swyddogaeth gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen, a gwell cymorth iddynt.

Ymateb i'r agweddau ym mhapur gwyn Llywodraeth y DU ar ofal cymdeithasol sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys parhau i bwysu am gyhoeddi cynigion cyllido'r dyfodol yn gynnar ledled y DU.

“


Byddwn yn parhau i herio tlodi ymysg pobl hŷn. Byddwn yn herio'r llywodraeth os bydd newidiadau yn cael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol pobl hŷn.¹⁴

”

“

Byddwn yn cefnogi pobl hŷn a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn clywed safbwyntiau a phryderon y rheini sy'n derbyn gofal cymdeithasol neu sy'n poeni am dalu am eu gofal.¹⁵

”



Dylanwadu ar safbwynt Llywodraeth Cymru ar dalu am ofal cymdeithasol, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n clywed yn uniongyrchol beth yw safbwyntiau a phryderon pobl hŷn sy'n derbyn gofal cymdeithasol.

Cydweithio â'r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol i gefnogi cyhoeddi canllawiau diwygiedig mewn perthynas â chau cartrefi gofal.

Dylanwadu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) fel bod gan bobl hŷn lais, dewis a rheolaeth effeithiol pan gânt gymorth gwasanaethau cymdeithasol, a bod y broses asesu, y meini prawf cymhwysedd a'r fframweithiau canlyniadau yn cefnogi buddiannau pobl hŷn gystal â phosibl.

Gofalwyr Hŷn Di-dâl

Mae 183,000¹⁶ o ofalwyr hŷn anffurfiol yng Nghymru. Maent yn cynrychioli un rhan o bump o'r holl bobl hŷn a dros hanner yr holl bobl yng Nghymru sy'n darparu gofal di-dâl.

Mae gofalwyr hŷn yn rhoi cymorth amhrisiadwy i'w hanwyliaid. Mae llawer ohonynt yn cael trafferth ag anghenion cymhleth y rheini y maent yn gofalu amdanynt, a hynny'n aml heb lawer o gefnogaeth na hyfforddiant. Mae gofalwyr hŷn hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru.

Mae diffyg cymorth yn effeithio ar iechyd nifer sylweddol o ofalwyr hŷn, gyda dros dwy ran o dair yn dioddef problemau iechyd hirdymor neu anabledd ac mae bron 70% yn dweud bod eu cyfrifoldebau gofalu yn cael effaith niweidiol ar eu hiechyd meddwl.¹⁷

Byddwn yn:

Archwilio lefel a digonoldeb y gefnogaeth a roddir i ofalwyr, gan ganolbwyntio ar hyfforddiant ar gyfer tasgau gofal cymhleth yn y cartref.

Cydweithio ag eraill i herio'r ffaith bod lwfans gofalwyr yn dod i ben yn 60 oed.

Cydweithio ag eraill i asesu effaith Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 (bydd hyn yn dibynnu ar ddyddiadau gweithredu).

Dementia

Mae gan oddeutu 43,000 o bobl ddementia yng Nghymru, a rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu dros 30% yn y 10 mlynedd nesaf.¹⁸ Er mai yng Nghymru y mae'r lefelau uchaf o bobl hŷn yn y DU, mae ganddi'r lefel isaf o ddiagnosis ffurfiol o ddementia. Nid oes dealltwriaeth dda o ddementia ac yn aml gwneir tybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth annigonol am y clefyd a'i effaith.

Mae llawer o bobl â dementia'n wynebu risg uchel o gael eu hallgáu'n gymdeithasol a hyd yn oed o ddioddef gwahaniaethu. Mae llawer o ofalwyr yn ei chael yn anodd ymdopi. Rhaid i wella gofal dementia fod yn flaenoriaeth i bawb yng Nghymru.

Byddwn yn:

Cydweithio ag eraill i asesu cynnydd 'Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia' Llywodraeth Cymru.

Arwain gwaith ledled Cymru ar ddatblygu dinasoedd a chymunedau sy'n gyfeillgar at ddementia.

Dilyn trywydd yr argymhellion a wnaethom mewn perthynas â dementia fel rhan o'n Hadolygiad o urddas a pharch mewn ysbytai i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

Gwella mynediad at eiriolaeth i bobl â dementia drwy ddilyn trywydd ein hadolygiad o drefniadau eiriolaeth mewn cartrefi gofal.

Trefniadau eiriolaeth mewn cartrefi gofal

Mae gan y Comisiynydd swyddogaeth benodol o ran diogelu buddiannau pobl hŷn mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed ac mae'n cydnabod pwysigrwydd eiriolaeth annibynnol ar gyfer darparu cymorth mewn cyfnodau heriol.

Mae ymchwil wedi dangos bod cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru yn dipyn o 'loteri cod post' ac mewn ardaloedd mawr o'r wlad nid yw'r gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn yn cael eu cyllido'n ddigonol. Yn wir, mae yna llai o wasanaethau eiriolaeth ar gael heddiw nag yn 2007.¹⁹

Bydd ein prif ffocws eleni ar gynyddu'r llais, y dewis a'r rheolaeth sydd gan bobl hŷn pan fyddant yn ystyried mynd i gartref gofal, pan fyddant yn byw mewn cartref gofal, neu os ydynt yn wynebu sefyllfa lle mae cynlluniau i gau'r cartref gofal.

Byddwn yn:

Cyhoeddi ac ymgynghori ar argymhellion ynghylch a yw trefniadau eiriolaeth i bobl hŷn yn ddigonol wrth iddynt fynd i gartref gofal, byw yno neu symud o un i'r llall.

“

Byddwn yn cefnogi ac yn siarad ar ran gofalwyr pobl hŷn yng Nghymru, ac yn gweithio gyda sefydliadau gofalwyr i wella'r cymorth a'r cyngor.²⁰

”

“

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa wirioneddol o ran dementia fel bod dealltwriaeth ehangach o'i effaith ar bobl hŷn ac ar ofalwyr. Byddwn yn galw am well gwasanaethau dementia.²¹

”



Cydweithio â chydweithwyr ledled Cymru i ddatblygu deunyddiau arfer da mewn perthynas â darparu eiriolaeth i bobl hŷn wrth iddynt fynd i gartrefi gofal a byw ynddynt.

Cydweithio ag eraill ledled Cymru i ddatblygu safonau eiriolaeth y cytunir arnynt.

Ceisio cytundeb Llywodraeth Cymru i roi hawl i eiriolaeth annibynnol yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) newydd.

Cydweithio â Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achos busnes newydd ar eiriolaeth fel a amlinellwyd yn eu rhaglen lywodraethu.

Gwybodaeth a Chyngor

Mae nifer helaeth o bobl hŷn yn dweud wrthym am yr anawsterau wrth geisio cael gafael ar wybodaeth a chyngor. Yn rhy aml, nid yw pobl hŷn yn cael y wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau pwysig a chymhleth. Mae hynny'n digwydd yn aml ar adeg pan fyddant yn arbennig o agored i niwed, er enghraifft, ar ôl profedigaeth neu salwch difrifol.

Mae pobl hŷn hefyd yn dweud wrthym nad ydynt yn aml yn gwybod gan bwy y dylent geisio gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Yn y byd digidol sydd ohoni lle mae'r we yn aml yw'n unig le i gael gafael ar wybodaeth, mae llawer o bobl hŷn yn ei chael yn anodd cael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt.

Ceir llawer o enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu gwybodaeth a chyngor yng Nghymru, ond rhaid gwneud mwy i sicrhau bod yr arfer da hwnnw'n datblygu'n arfer safonol.

Byddwn yn:

Ymgynghori ar ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ledled Cymru, a chyhoeddi canllawiau amdanynt.

Parhau, drwy ein Tîm Ymholiadau a Chymorth, i ddarparu amrywiaeth eang o wybodaeth a chymorth os yw'r Comisiwn yn y sefyllfa orau i gynorthwyo, fel yr amlinellir yn adran 3 (Tudalen 7).

Fel rhan o'n 'Sioe Deithiol Ymgysylltu' byddwn yn dod ag amrywiaeth eang o asiantaethau at ei gilydd, fel yr amlinellir yn adran 2 (tudalen 4 a 5), er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o'r wybodaeth, y canllawiau a'r cymorth sydd ar gael.

Diogelu ac Amddiffyn Oedolion

Amcangyfrifir bod o leiaf 34,000 o bobl hŷn yng Nghymru'n dioddef rhyw fath o gam-drin neu esgeuluso bob blwyddyn²². Rhaid i bobl hŷn allu byw'n ddiogel ag urddas heb gael eu hecsbloetio na'u cam-drin.

Ceir diffyg dealltwriaeth o hyd am ehangder ac effaith cam-drin pobl hŷn yng Nghymru ac mae'r deddfwriaeth bresennol yn ymwneud â diogelu oedolion yn gallu bod yn ddryslyd iawn.

Felly, rhaid i ni sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn glir ac yn agored, gan sicrhau ei bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau.

Byddwn yn:

Parhau i gydweithio â sefydliadau amrywiol megis yr heddlu a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cam-drin pobl hŷn yn cael cydnabyddiaeth briodol, bod cyfiawnder ar gael i bobl hŷn pan fydd ei angen arnynt, a bod data am gam-drin pobl hŷn yn cael eu casglu'n gywir ac y gweithredir arnynt.

Cyhoeddi ymchwil ar chwythu'r chwiban ac archwilio ffyrdd y gall y rheini sy'n gweithio gyda phobl hŷn fod yn gwbl hyderus wrth fynegi pryderon a siarad ar ran pobl sydd mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed.

Parhau i ddsbarthu a hyrwyddo ein cyhoeddiad poblogaidd iawn 'Amddiffyn pobl hŷn yng Nghymru: Canllaw i'r gyfraith', sy'n parhau i gael ei ddefnyddio'n aml gan bobl sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r proffesiwn cyfreithiol yn ogystal â phobl hŷn, eu perthnasau a'u gofalwyr.

Cefnogi'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) i wella sut y caiff cam-drin ei ganfod a'i atal, ac amddiffyn pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed.

“

Rydym yn parhau i wella mynediad pobl hŷn at wybodaeth a chynghor fel y gallant wneud penderfyniadau doeth a chael dewis a rheolaeth dros eu bywyd.²³

”

“

Byddwn yn sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl hŷn sydd angen cael eu diogelu rhag niwed fel y gallant fyw heb gael eu hecsbloetio na'u cam-drin.²⁴

”

Urddas a Pharch mewn Ysbytai

Cawsom rai enghreifftiau o arfer da o'n gwaith blaenorol wrth adolygu a yw pobl hŷn mewn ysbytai yn cael eu trin ag urddas a pharch, ond cafwyd llawer o enghreifftiau hefyd o driniaeth annigonol.

Mae'r argymhellion a wnaethpwyd yn dilyn ein Hadolygiad, yn ogystal â'r rhaglen gynhwysfawr o waith dilynol parhaus, wedi gyrru gwelliannau yn y ffordd y caiff pobl hŷn eu trin mewn ysbytai ac mae urddas bellach yn brif flaenoriaeth ledled y GIG yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i gefnogi a phwyso am newid, nid yn unig drwy annog rhannu arferion gorau, ond hefyd drwy graffu a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif os oes angen mwy o welliannau.

Byddwn yn:

Atgyfnerthu'r angen am welliant parhaus a pharhaol mewn ysbytai drwy fynd ati i annog a chefnogi rhannu arfer da.

Cydweithio â Chynghorau Iechyd Cymunedol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac eraill i fonitro cynnydd o ran rhoi newidiadau ar waith yn dilyn yr argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad.

Cyhoeddi adroddiad cynnydd ar y camau a gymerwyd hyd yn hyn gan y GIG a Llywodraeth Cymru.

Heneiddio'n Dda

Un her sy'n ein hwynebu yng Nghymru yw bod angen i ni gael cydbwysedd rhwng diwallu anghenion pobl hŷn heddiw â chynllunio ymlaen llaw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i ni ddechrau meddwl am gynllunio ymlaen llaw a chymryd camau ataliol i alluogi'r rheini ohonom sy'n iau ar hyn o bryd i aros mor iach, annibynnol a phrysur â phosibl wrth i ni heneiddio.

Byddwn yn:

Arwain rhaglen genedlaethol Heneiddio'n Dda a fydd yn dwyn ynghyd amrywiaeth o sefydliadau allweddol, bob un ohonynt yn canolbwyntio ar ddatblygu ein meddwl a'n gweithredu ym maes heneiddio'n dda yng Nghymru.

Cyhoeddi adroddiad yn herio'r rhagdybiaeth mai dim ond materion pobl iau neu bobl hŷn all gael sylw – ac nid y ddau.

Herio'r stereoteipiau negyddol sy'n aml yn cael eu cysylltu â'r henoed drwy dynnu sylw at straeon newyddion cadarnhaol am bobl hŷn.

Datblygu Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhaid i wasanaethau cyhoeddus o safon uchel sy'n diwallu anghenion pobl hŷn fod yn flaenoriaeth i Gymru. Mae pobl hŷn yn aml yn codi materion yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus megis mwynderau cymunedol, toiledau cyhoeddus a llyfrgelloedd, ac mae diffyg trafndiaeth gyhoeddus a chymunedol yn fater arbennig o bwysig i bobl hŷn sy'n byw yng Nghymru wledig.

Mae sicrhau bod gwybodaeth a phrofiadau pobl hŷn wrth galon cynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn allweddol o ran sicrhau eu bod yn effeithiol ac o ansawdd da.

Byddwn yn:

Dechrau gweithio i asesu pa mor effeithiol y mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru'n ymgysylltu â phobl hŷn wrth gynllunio a chyflenwi eu gwasanaethau. Byddwn am wybod sut y mae cyrff cyhoeddus wedi ymgysylltu â phobl hŷn, gwrando arnynt a gweithredu'n unol â'u safbwyntiau.

Cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod deddfwriaeth newydd ym meysydd tai, iechyd cyhoeddus a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn.

Dechrau asesu i ba raddau y mae strategaethau a chynlluniau gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn adlewyrchu materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

Cydweithio â Llywodraeth Leol i sicrhau bod cynlluniau cymunedau lleol yn adlewyrchu'r materion a godir gan bobl hŷn, er enghraifft trafndiaeth gyhoeddus, toiledau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth o weithio ar y cyd, canlyniadau clir, ac ymgysylltu ac atebolrwydd effeithiol.

Cydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill i ddechrau datblygu cyfres o ddangosyddion y gellir eu defnyddio i gael trosolwg lefel uchel o ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru.

“


Byddwn yn parhau i wneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae pobl yn cael eu trin yn yr ysbyty fel bod yr holl bobl hŷn yn cael eu trin ag urddas a pharch.²⁵

”

“

Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau cymunedau lleol yn adlewyrchu'r materion a godir gan bobl hŷn.²⁶

”



Cydweithio â phartïon eraill i ddatblygu agenda ymchwil integredig i Gymru, gan adolygu'r dull presennol o gasglu a defnyddio data mewn perthynas â phobl hŷn.

Cydweithio â llunwyr polisïau a darparwyr gwasanaethau i godi proffil a gwella dealltwriaeth o bwysigrwydd a'r cysyniad ehangach o les. Fel rhan o hyn, rydym am lunio achos cadarn o blaid sicrhau bod lles yn ganolog i nodau ac amcanion cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Cyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r rhwystrau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

Bydd llawer o'r uchod yn bwydo i'r cynllun strategol pedair blynedd sydd ar y gweill gennym i gefnogi'r newidiadau y credwn fod angen iddynt ddigwydd i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru.

6. Eich cyfle i ddweud eich dweud am ein blaenoriaethau i'r dyfodol

Mae ein rhaglen waith ar gyfer 2012-13 yn seiliedig ar ein [Cynllun Strategol \(2010 – 2013\)](#) presennol ond mae hefyd yn adlewyrchu amgylchedd newidiol pobl hŷn.

Rydym wrthi'n datblygu ein strategaeth newydd pedair blynedd a fydd yn amlinellu'r blaenoriaethau am y blynyddoedd i ddod o fis Ebrill 2013 ymlaen. Caiff hon ei hategu gan raglenni gwaith blynyddol.

I roi cyfle i bobl hŷn ac eraill i roi sylwadau am ein blaenoriaethau i'r dyfodol, byddwn yn ceisio safbwyntiau am ein cyfeiriad i'r dyfodol mewn ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod hydref 2012.

Rydym am glywed am y materion sy'n bwysig i chi er mwyn seilio ein strategaeth arnynt.

Os ydych chi'n berson hŷn, mae gan y Comisiynydd ddiddordeb mewn cael gwybod:

- Beth yw'r pethau gorau am dyfu'n hŷn yng Nghymru?
- Beth yw'r pethau gwaethaf am dyfu'n hŷn yng Nghymru?
- Pe gallem ni newid tri pheth ar eich rhan, beth fyddai'r rhain?

Os ydych chi'n gweithio ar ran pobl hŷn yn y sector cyhoeddus, y sector preifat, y trydydd sector neu'r sector gwirfoddol, byddai'r Comisiynydd yn croesawu adborth am yr hyn sy'n bwysig i'ch sefydliad ac i'r bobl hŷn yr ydych yn eu cynrychioli.

- Beth yw tair prif flaenoriaeth eich sefydliad mewn perthynas â phobl hŷn?
- Beth sy'n achosi'r rhwystredigaeth fwyaf i chi ac yn eich atal rhag cyflawni newid i bobl hŷn?
- Sut gallai'r Comisiwn Pobl Hŷn helpu i ychwanegu gwerth at eich sefydliad a'i waith?

Anfonwch eich atebion at:
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Neu anfonwch eich atebion mewn e-bost i gofyn@olderpeoplewales.com gan roi "Rhaglen Waith 2012-13" yn nheitl y neges.

7. Sut rydym yn cyflawni ein busnes ac yn sicrhau ein bod yn addas i'n pwrpas

Gwneud penderfyniadau, cyllido a chraffu

Bob blwyddyn, mae gofyn i'r Comisiynydd gyflwyno'n ffurfiol adroddiad blynyddol am weithgareddau'r Comisiwn i Brif Weinidog Cymru. Bydd yr adroddiad yn cael ei drafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a fydd hefyd yn cymryd tystiolaeth yn uniongyrchol gan y Comisiynydd Pobl Hŷn. Hefyd, mae Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad yn craffu ar ein gwaith.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu cyfreithiol, y comisiynydd sy'n gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer rheoli adnoddau'r Comisiwn, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn ac adnabod a rheoli risg. Mae Pwyllgor Archwilio

“

Byddwn yn rhoi cyfle i bobl hŷn ac eraill i roi sylwadau am ein blaenoriaethau i'r dyfodol. Byddwn yn ceisio barn pobl am ein cyfeiriad i'r dyfodol drwy gyfrwng ymgynghoriad cyhoeddus.

”

“

Rydym yn llunio cyfres newydd o fesurau perfformiad sy'n dangos y gwahaniaeth a wnawn i fywydau pobl hŷn.

”

a Sicrhau Risg yn cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni hyn. Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae'r Comisiynydd wedi penodi archwilwyr mewnol i gynnal adolygiadau rheolaidd o'r systemau rheoli mewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cael adroddiadau am yr adolygiadau hyn. Mae barn yr archwilwyr mewnol yn datgan, yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012, fod gan y Comisiwn system gadarn o reolaeth fewnol, ac y dylai'r system honno roi sicrwydd sylweddol o ran cyflawni amcanion y Comisiwn.

Caiff y Comisiwn ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ond mae'n weithredol annibynnol arni. Mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran defnyddio adnoddau. Yn 2012-13, cafodd y Comisiwn £1.732 miliwn o gyllid i ariannu ei weithgareddau. Y cyllid dangosol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yw £1.715 miliwn.

Caiff Cyfrifon Blynyddol y Comisiwn eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac maent ar gael ar ein [gwefan](#). Mae'r Cyfrifon Blynyddol hefyd yn cynnwys Adroddiad Tâl a Datganiad Llywodraethu.

Asesu ein perfformiad ac adrodd am ein heffaith

Rydym yn newid y ffordd yr ydym yn asesu ein perfformiad eleni ac yn datblygu cyfres newydd o fesurau perfformiad sy'n dangos y gwahaniaeth a wnawn i fywydau pobl hŷn.

Mae'n debygol y bydd y ffocws ar gyflawni'r gwaith a amlinellir yn y cynllun hwn, sut rydym yn ymgysylltu â phobl hŷn, i ba raddau rydym yn dylanwadu ar eraill i wrando ar lais pobl hŷn, a sut rydym yn dangos stiwardiaeth dda fel corff a ariennir yn gyhoeddus.

Rydym hefyd yn gwella'r ffordd rydym yn adrodd am effaith a chyrhaeddiad y gwaith a wnawn fel y gallwn ddangos yn agored ac yn glir yr effaith a gawn ar ran pobl hŷn.

**£496
miliwn**

yw gwerth
y gwaith
gwirfoddol
di-dâl a
wneir gan
bobl hŷn yng
Nghymru.²⁷

8. Cyfeiriadau

1. Mae pobl hŷn yn cyfrannu £3miliwn y dydd at economi Cymru, gan gyfrannu £1biliwn yn 2010 yn unig. Ffynhonnell: WRVS Cymru, 'Grey economy worth £1 billion to Wales', Wales Online, 4 Mawrth 2011.
2. Mae WRVS wedi cyfrifo y bydd pobl dros 65 oed yng Nghymru yn cyfrannu £27biliwn at economi Cymru erbyn 2030. Ffynhonnell: Gweler Cyfeiriad 1.
3. Mae WRVS wedi cyfrifo bod pobl hŷn wedi cyflawni gwerth £496 miliwn o waith gwirfoddol di-dâl yng Nghymru. Ffynhonnell: Gweler Cyfeiriad 1. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod neiniau a theidiau yn cyfrannu gwerth £259miliwn o ofal plant yng Nghymru. Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru: Byw'n Hirach, Byw'n Well, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008-2013.
4. Gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-2013, (taflen 2012), www.olderpeoplewales.com/publications
5. Gweler Cyfeiriad 4.
6. Stats Cymru: Dangosyddion Strategol Cenedlaethol 2010-2011 THS/007 www.statswales.wales.gov.uk
7. Llywodraeth Cymru: Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol yn seiliedig ar 2010.
8. 'Valuing the Socio-Economic Contribution of Older People in the UK' (WRVS 2011).
9. Measuring inequalities:trends in mortality and life expectancy in Wales: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhagfyr 2011. Ffigurau'n seiliedig ar ddata 2005-2009.
10. ibid.
11. Gweler Cyfeiriad 4.
12. Gweler Cyfeiriad 4.
13. Stats Cymru: Tabl 2010-2011 [032612] Dangosyddion Strategol Cenedlaethol THS/007 www.statswales.wales.gov.uk/.
14. Gweler Cyfeiriad 4.

Mae
50%
O bobl hyn
85 oed neu
hŷn yn byw
mewn tloidi
tanwydd .²⁸

15. Gweler Cyfeiriad 4.
16. Gofynnodd Cyfrifiad 2001 y cwestiwn canlynol: A yw'r person yn gofalu am, neu'n rhoi unrhyw help neu gymorth i aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, anabledd neu broblemau hirdymor sy'n gysylltiedig â henaint? (Peidiwch â chyfrif unrhyw beth a wnewch fel rhan o'ch cyflogaeth, ticiwch faint o amser mewn wythnos arferol). Categoriâu ateb: Na; Ydy, 1 - 19 awr yr wythnos; Ydy - 20 - 49 awr yr wythnos; Ydy, 50+ awr yr wythnos. Tabl S27.
17. 'Always On Call, Always Concerned: A survey of the Experiences of Older Carers', Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr (2011) http://www.carers.org/sites/default/files/always_on_call_always_concerned.pdf.
18. 'Mapping the dementia gap', Tesco, Cymdeithas Alzheimer ac Alzheimer's Scotland (2011)
19. Pwysigrwydd Eiriolaeth 3: Y trydydd adroddiad ar ddarparu eiriolaeth i bobl hŷn yng Nghymru', Age Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2010) http://www.olderpeoplewales.com/en/Publications/pub-story/11-03-01/Advocacy_Counts_3.aspx.
20. Gweler Cyfeiriad 4.
21. Gweler Cyfeiriad 4.
22. The UK Study of Abuse and Neglect of Older People (2006), Canfu Arolwg o Nifer yr Achosion ar gyfer yr Adran Iechyd a Comic Relief, fod nifer yr achosion o gamdriniaeth yng Nghymru yn 6% ymysg y rheini dros 65 oed. Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 563,000 o bobl 65 oed neu hŷn yng Nghymru.
23. Gweler Cyfeiriad 4.
24. Gweler Cyfeiriad 4.
25. Gweler Cyfeiriad 4.
26. Gweler Cyfeiriad 4.
27. Mae WRVS wedi cyfrifo bod pobl hŷn yng Nghymru yn gwneud gwerth £496 miliwn o waith gwirfoddol di-dâl. Ffynhonnell: WRVS Cymru, Wales Online, 4 Mawrth 2011.
28. Byw yng Nghymru 2008 – Ystadegau Tlodi Tanwydd: Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru. 10 Tachwedd 2010. Caiff tlawd o ran tanwydd ei ddiffinio fel gorfod gwario dros 10% o incwm ar ddefnyddio tanwydd yn y cartref.

